# Adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni 2024-2025

## Neges gan y Pennaeth

Annwyl Rieni/Gwarchodwyr,
Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Ffederasiwn am y flwyddyn 2024-2025. Crynhoad sydd yma o brif ddigwyddiadau a llwyddiannau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol a fu.
Mae'n glir fod llwyddiant yr ysgol yn parhau drwy'r tim brwdfrydig o staff sydd yn hynod o weithgar. Mae'r staff yn llwyddo i gynnal y safonau uchel wrth ddefnyddio arbenigedd a diddordebau staff er mwyn ychwanegu at brofiadau'r disgyblion a chynnig cyfleoedd heb eu hail iddynt.
Mae wedi bod yn hynod o braf gweld y disgyblion yn cyfrannu ac yn serennu o fewn cymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach tra'n dathlu a rhannu eu Cymreictod gyda balchder. Mae'r ysgol yn anelu i ddatblygu dinasyddion egwyddorol a gwybodus drwy gwahanol brofiadau. Mae'r disgyblion yn hyderus yn trafod eu gwaith a'u profiadau sydd yn dangos ein bod yn llwyddo i greu cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n gweld pwrpas i'w dysgu.
Hoffwn hefyd ddiolch i'r Llywodraethwyr am eu gwaith gwirfoddol a'u cyngor doeth wrth gefnogi'r ysgol dros y flwyddyn. Diolch hefyd i chi fel rhieni a gwarchodwyr am eich cefnogaeth chi i'r ysgol.
Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r plant. Mae'n ymdrechion ni gyd fel cymuned Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal ar gyfer cefnogi a datblygu'r disgyblion drwy roi addysg a phrofiadau heriol a diddorol iddynt a chreu cymuned ac amgylchedd sy'n galluogi iddynt ffynnu. Y modd mae'r disgyblion yn cofleidio'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt a'r datblygiad parhaus sydd i'w weld yn y disgyblion yw'r arwydd orau o'n llwyddiant ni fel Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal.
Edrychaf ymlaen eleni i barhau gyda gweithgarwch y blynyddoedd a fu ac i ddatblygu y Ffederasiwn ymhellach! Mae gennym ni weledigaeth gref a braint fydd arwain y weledigaeth yma ar y cyd gyda'r disgyblion, staff, Llywodraethwyr a chi rieni!. Ein gweledigaeth yma yn yr ysgol yw "Plant Llawen a Llwyddiannus".
Plant hapus sydd yn dysgu ac mae sicrhau bod disgyblion Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal yn hapus yn allweddol i fy ngweledigaeth i ar gyfer yr ysgol.
Os hoffech drafod unrhyw beth sydd i'w weld yn yr adroddiad hwn, croeso mawr i chi gysylltu a mi.

Mrs Nia Wyn Thomas-Evans
Pennaeth







# Neges gan y Cadeirydd

Annwyl Rieni,

Mae'n fraint ac anrhydedd i mi unwaith eto eleni fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar gyfer Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas, Corris ac Ysgol Pennal. Dyma gyfle ichi gael golwg ar ddydd i ddydd y Ffederasiwn, ei hystadegau a'i chyflawniadau am y flwyddyn a fu.

Yn gyntaf mae'n ddyletswydd arnai ddiolch yn ddiffuant i'r Corff Llywodraethol am eu cefnogaeth diflino, bob amser yn barod i dorchi llewys i sicrhau llwyddiant y Ffederasiwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyfnodau eitha heriol wedi bod ond mae'r Corff bob amser yn gefn i'r Pennaeth ar holl staff.

Dyma gyfle hefyd i ddiolch i'r Pennaeth Mrs Nia Thomas-Evans a holl staff y Ffererasiwn am eu hymroddiad di ffael. Mae arweiniad Mrs Nia Thomas-Evans yn gryf a chadarn, ac yn dangos parch i'r staff i gyd.

Hoffwn ddiolch i Ffrindiau'r Ysgol am eu hymroddiad diflino i gynorthwyo'r Ffederasiwn mewn amryw ffyrdd. Mae'n rhaid hefyd ddiolch i'r rhieni am gefnogaeth cadarn. Hefyd mae rhaid diolch i'r ddwy gymuned am gefnogaeth arbennig i sicrhau llwyddiant y Ffederasiwn.

Fel Cadeirydd rwyf yn hynod falch o Ffererasiwn Ysgol Dyffryn Dulas, Corris ac Ysgol Pennal, lle mae'r holl disglybion yn cael cefnogaeth i gyflawni eu llawn potensial ar gyfer eu dyfodol a dyfodol eu cymunedau.

Yn mis Mehefin cafwyd pnawn o hel atgofion a dathlu, gan fod Ysgol Dyffryn Dulas, Corris yn dathlu 70 mlwydd oed ers agor am y tro cyntaf. Cafwyd prynhawn hyfryd gyda llawer o gyn ddisgyblion yn mwynhau sgwrs a phaned. Llongyfarchiadau i Ysgol Dyffryn Dulas ac ymlaen a ni gan edrych i'r dyfodol.


Ein nod fel Ffederasiwn yw sicrhau fod y plant yn llawen a hapus a bod nhw yn cyrraedd eu llawn potensial.

Mr Dennis B Jones,
Cadeirydd y Corff Llywodraethol









# Aelodaeth Corff y Llywodraethwyr
## (Medi 2024 – Gorffennaf 2025

| | |
|---|---|
| Dennis Brace Jones, Cadeirydd | Cynrychiolydd Cymunedol Corris |
| Corina Owen-Davies, Is Gadeirydd | Cynrychiolydd Cymunedol Pennal |
| Nia Wyn Thomas Evans | Pennaeth |
| Kayla Lockett | Athrawes Pennal |
| Eirlys Wyn Jones | Athrawes Corris |
| Elen Mair Court | Cynrychiolydd Staff Corris |
| Dafydd Williams | Cynrychiolydd Staff Pennal |
| Rhys Parry | Cyngor Cymuned Pennal |
| Sharon Wells | Cyngor Cymuned Corris |
| Elin Roberts | Cynrychiolydd Rhieni - Corris |
| Eleri Puw | Cynychiolydd Rhieni - Corris |
| Alex Evans | Cynrychiolydd Rhieni - Pennal |
| Mirain Breese | Cynrychiolydd Rhieni - Pennal |
| Dewi Owen | Cynghorydd AALl |
| John Pughe Roberts | Cynghorydd AALl |
| Eirian Jones | Clerc y Corff Llywodraethol |



Clerc y Corff Llywodraethol yw Mrs Eirian Jones. Gellir cysylltu â Mrs Jones drwy gysylltu â'r Ysgol.
Gellir cysylltu â Chadeirydd y Corff drwy anfon nodyn wedi ei gyfeirio iddo drwy law Clerc y Corff

Mae'r Corff yn adlewyrchu trawsdoriad o'n cymuned lleol, ac etholir Cadeirydd newydd ar ddechrau pob blwyddyn addysgol. Prif nod y corff yw sicrhau bod pob plentyn yma yn Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal yn cael eu herio i gyflawni eu llawn potensial drwy wireddu polisîau yr Awdurdod Addysg Lleol a deddfwriaeth sy'n cael ei osod gan Llywodraeth Cymru.
Mae'r Llywodraethwyr yn cyfarfod o leiaf unwaith pob tymor, ac yn ystod y cyfarfodydd, mae holl staff yr ysgol yn cael cyfle i gyflwyno gwybodaeth am bresenoldeb a chynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd, materion staffio ac ati. Rol y Llywodraethwyr yw holi a herio y staff ynglyn a chynlluniau, gweithgareddau a'u heffaith. Gwirfoddol yw bod yn aelod o'r Llywodraethwyr, felly diolchwn i'r Corff am eu hamser a'u hymroddiad i'r ysgol.
Pan bydd cyfnod cynrychiolydd rhiant ar y Corff yn dod i ben, cynhelir etholiad i rieni. Byddwch yn derbyn gwybodaeth llawn am y broses yma y tro nesaf bydd angen ethol rhiant

## Cysylltu â'r Llywodraethwyr

Croesawn eich gohebiaeth a'r Llywodraethwyr ar bob achlysur; gallwch gysylltu gydag unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffwch ei holi/rannu a 'r Corff Llywodraethol. Derbynnir gohebiaeth a'r Cadeirydd a'r Corff drwy law y clerc, Mrs Eirian Jones.
Nid yw'n arferol bellach i gynnal cyfarfod blynyddol a rhieni, oni bai eich bod chi yn dymuno cynnal cyfarfod. Mae modd cynnal hyd at dri chyfarfod y flwyddyn a rhieni ar ol cael ei ddeisebu. Er mwyn cynnal y cyfarfod, mae'n rhaid i isafswm o rieni 10% o'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru arwyddo'r ddeiseb gan nodi pam eu bod eisiau cyfarfod. Rhaid bod y cyfarfod y gofynnir amdano yn cael ei gynnal at ddibenion trafod mater sy'n ymwneud a 'r ysgol.

## Polisiau

Yn yr un modd trafodwyd, addaswyd a diweddarwyd pob polisi. Adolygir pob polisi ysgol un ai'n flynyddol neu fel rhan o gylch tair blynedd ac maent ar gael yn yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.

## Iechyd a Lles

Yn ogystal â chynnal cwricwlwm statudol Addysg Gorfforol, bydd plant y Ffederasiwn yn cystadlu mewn rhaglen gynhwysfawr o athletau a mabolgampau yn erbyn plant yr ysgolion yn y dalgylch a thu hwnt.
Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar agweddau o iechyd a lles o fewn gwaith thematig dosbarth ac yn ymgorffori ardaloedd tu allan i mewn i brofiadau dysgu dyddiol.











## Lles

Mae lles wedi bod yn flaenoriaeth i'r ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddog Lles yr awdurdod i gefnogi disgyblion a theuluoedd.
Mae gan yr ysgol bolisi o ffrwythau yn unig fel byrbrydiau amser chwarae. Rydym yn tyfu ffrwythau a llysiau. Mae contractwyr cegin wedi dylunio eu bwydlen yn benodol i gwrdd â gofynion Blas am Oes Llywodraethwyr Cymru. Hyrwyddir bwydlen iach ar amser cinio. Dŵr yn unig sydd yn cael ei ganiatáu.
O fewn y Ffederasiwn, 'rydym yn ymfalchio o berthyn i Rwydwaith Ysgolion Iach Cymru.
Mae'r disgyblion yn mwynhau cael rhedeg o amgylch y trac er mwyn cael saib fach o'r ystafell ddosbarth!
Cynhelir sesiynau Ioga hefyd ym mhob dosbarth.
Bydd Blwyddyn 2-6 yn cael sesiynau nofio yn Nhymor y Gwanwyn bob blwyddyn.
Cynhelir gweithdai Eginiad Cymru yn Nhymor yr Hydref gyda disgyblion Dosbarthiadau 7-11oed.

## Diogelu Plant

Mae'r Ffederasiwn yn dilyn polisi Diogelu Plant a chaiff y staff hyfforddiant blynyddol parthed hyn. Byddwn yn cadw cofnodion ac unrhyw bryderon neu ddiogelu plant.

**Person Dynodedig Diogelu Plant**

Nia Wyn Thomas-Evans
Eirlys Wyn Jones
Kayla Lockett

**Llywodraethwr Dynodedig Diogelu Plant**

Mr Dennis B Jones

# Cwricwlwm yr Ysgol


Mae'r ysgol wedi parhau i ddatblygu ei phrosesau er mwyn ymsefydlu Cwricwlwm i Gymru yn ddyfnach yn ein dysgu ac addysgu. Rydym wedi cyfoethogi ein dysgu ac addysgu ac wedi gweithio'n ddyfal i ddatblygu'r drefn asesu cynnydd o fewn y Ffederasiwn

Mae athrawon Dosbarthiadau 3-7oed yn canolbwyntio ar ddatblygu llwybrau datblygu sydd yn
- cefnogi datblygiad plentyn holistaidd a chefnogi plant i wneud cysylltiadau ar draws eu profiadau dysgu
- darparu cyfleoedd i gynllunio profiadau dysgu dilys ac ystyrlon
- cynnig profiadau sy'n canolbwyntio ar anghenion, diddordebau a chwilfrydedd plant

Yn Nosbarthiadau 7-11, mae'r athrawon yn parhau i addysgu Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ynghyd a Mathemateg a Rhifedd fel pynciau ar wahan yn ein sesiynau bore. Teimlwn yn gryf bod angen y sesiynau hyn er mwyn datblygu sgiliau allweddol y disgyblion a sicrhau cynnydd yn eu medrau llythrennedd a rhifedd.
Mae ein gallu i ddyfnhau'r ddealltwriaeth trwy gymhwyso'r sgiliau i weddill meysydd dysgu yn y tasgau ardaloedd y cwricwlwm yn y prynhawniau.



**Y pum llwybr datblygu:**
- perthyn
- cyfathrebu
- archwilio
- datblygiad corfforol
- lles




# Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mrs Kayla Lockett yw Cydlynydd ADY Ysgol Pennal, a Mrs Eirlys Wyn Jones yw Cydlynydd ADY Ysgol Dyffryn Dulas.
Mrs Eleri Puw yw'r Llywodraethwraig dynodedig ADY.

Amcan yr ysgol yw adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad (ADYaCh) yn gynnar, a rhoi sylw bwriadus i ddisgyblion sydd ar y gofrestr. Ein gobaith yw cynnig y ddarpariaeth orau drwy gydweithio gyda'r cartref a sicrhau bod pob unigolyn yn cyrraedd eu llawn potensial. Yn yr ysgol, gwneir hyn drwy ddarparu cymorth ychwanegol o fewn yr ystafell ddosbarth, neu mewn grwpiau bychain/yn unigol drwy dargedu a chynlluniau ymyrraeth. Ceir hefyd cymorth arbenigwyr yr awdurdod lle'n briodol. I'r perwyl hwn, dilynir y polisi ym mhob achos. Caiff Cynlluniau Datblygu Unigol eu paratoi a'u hadolygu gyda'r rhieni/gwarchodwyr, gan gynnwys llais y plentyn. Mae pob plentyn sydd ar y gofrestr wedi gwneud cynnydd llynedd. Ymgynghorir â rhieni a'u gwahodd i fynychu cyfarfodydd gyda'r Cydlynydd ADY a'r gwasanaethau cymorth, gan gynnwys adolygiad blynyddol statudol. Mae Map Darpariaeth ADY yn nodi y ddarpariaeth mae'r ysgol yn ei gynnig i ddisgyblion y Ffederasiwn.
Rydym yn falch iawn bod canran uchel iawn o'n disgyblion yn gwybod gyda phwy i siarad os yn poeni am yr ysgol.

## Cynllun Datblygu Ysgol

Mae gan yr ysgol Gynllun Datblygu, sef dogfen weithiol sy'n adnabod ac yn mynd i afael â'n blaenoriaethau sy'n deillio ô'n gweithdrefnau hunan-werthuso. Mae'r cynllun datblygu yn ystyried blaenoriaethau lleol a Chenedlaethol, yn ogystal â dadansoddi ein darganfyddiadau ar ôl monitro a craffu ar waith plant. Bydd ein targedau yn cael eu gwerthuso a'u addasu yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer cyrraedd ein nôd. Mae aelodau o'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am fonitro'r cynllun hunan-arfarnu. Yn ystod cyfarfodydd, byddent yn adrodd, holi a herio ar ddatblygiad yr ysgol yn unol â'r Cynllun Datblygu er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau yn cael eu gweithredu'n effeithiol

**Y 3 prif flaenoriaethau ar gyfer 2024-2025 oedd :**

BLAENORIAETH 1 - Datblygu , ehangu a cyfoethogi profiadau y disgyblion yn y MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Phrosiectau Codio o fewn yr ysgol, gan gynllunio gweithgareddau addas a dilys er mwyn cyffroi'r disgyblion a chynyddu cyrhaeddiad yn y maes.

BLAENORIAETH 2 - Parhau i wella gwydnwch, ffitrwydd a lles ein disgyblion

BLAENORIAETH 3 - Sicrhau bod gan y disgyblion sgiliau a gwybodaeth rhifiadol da er mwyn datrys problemau a rhesymu yn hyderus.

BLAENORIAETH 4 - Parhau i wella a chryfhau strwythurau monitro ag asesu o fewn y Ffederasiwn trwy ddatblygu rolau arwain ac atebolrwydd staff a llywodraethwyr fel bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a mannau datblygu eu meysydd arwain

## DATBLYGIAD PROFFESIYNNOL PARHAUS

Mynychodd nifer o'r athrawon a'r cymhorthyddion hyfforddiant a chyrsiau penodol o fewn y flwyddyn gyda'r nod o godi a cynnal safonau ynghyd a chyfoethogi'r ddarpariaeth addysgol ymhellach i'r disgyblion.
Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant Diogelu Plant a Radicaleiddio. Mae 4 aelod o staff wedi derbyn Hyfforddiant Cymorth Cyntaf llawn.
Mae ein sesiynau Hyfforddiant Mewn Swydd yn targedu blaenoriaethau'r ysgol.



## ADOLYGIAD DATBLYGIAD PROFFESIYNNOL STAFF

Mae'r polisi yma yn weithredol yn yr ysgol gyda'r broses hon yn dilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru er mwyn gwarantu bod y staff yn cyfrannu at nodau cytun yr ysgol ynghyd a nodau personol gan sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd priodol i ddatblygu'n broffesiynnol. Cysylltir pob agwedd gyda safonau a chynnydd disgyblion.
Diolch o galon i staff y Ffederasiwn am eu holl waith caled a'u cefnogaeth ddiderfyn i'r ysgol ym mhob agwell o fywyd a gwaith yn y gymuned.

## Cydweithio gydag eraill

Mae staff y Ffederasiwn wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiectau cydweithio ble fo’r ysgolion yn rhannu arfer dda gyda’i gilydd ac yn cydweithio i ddatblygu adnoddau.

Eleni rydym wedi bod yn datblygu Porffolio Dysynni ar y cyd gyda athrawon y dalgylch ac wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu llafar (Siarad a Gwrando) eleni.

Mae athrawon a chymhorthyddion y ddwy ysgolion yn cydweithio o ddydd i ddydd ac yn rhannu syniadau/arbenigedd.




## Cyfathrebu gyda rhieni

Rydym yn gwneud ein gorau i gyfathrebu gyda rhieni o ddydd i ddydd. Dyma grynodeb o’r hyn sydd yn bwysig i ni fel Ffederasiwn i gyfathrebu gwybodaeth gyda rhieni.

## Wefan y Ffederasiwn

Mae wefan newydd sbon ar gyfer y Ffederasiwn ers Rhagfyr 2024 ac mae gwybodaeth defnyddiol ar gyfer rhieni’r ysgol ar y wefan

## Ebyst Wythnosol

Yn wythnosol, mae’r Pennaeth yn rhannu gwybodaeth ar ebost. Mae’r ebost yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau, yn dathlu llwyddiannau, yn rhannu negeseuon pwysig ac yn aml yn gofyn am gymorth gan y rhieni.
Mae’r Pennaeth yn danfon dyddiadur misol allan ar ebost i rieni ac mae copi ar wefan yr ysgol.

## Cylchlythyron

Mae cylchlythyr yn cael ei danfon i rieni bob hanner tymor sydd yn rhannu gwybodaeth a chyfathrebu am ddigwyddiadau gyda rhieni.
Disgyblion y Ffederasiwn sydd yn ysgrifennu mwyafrif o’r newyddion ar gyfer y cylchlythyron gan ddefnyddio’r newyddion o’r papurau newydd ‘Blewyn Glas’ a ‘Dail Dysynni’







## Nosweithiau Rhieni ac adrodd ar gynnydd

Yn Nhymor yr Hydref roedd noson rieni ble roedd yr athrawon yn rhannu targedau gyda’r rhieni ac yn trafod sut roedd y disgyblion wedi setlo yn eu dosbarthiadau yn ogystal ag ateb unrhyw gwestiynau oedd gan y rhieni.
Yn Nhymor y Gwanwyn, roedd noson wyneb i wyneb ble roedd cyfle i weld llyfrau’r plant a thrafod eu cynnydd.
Yn Nhymor yr Haf, rhannwyd adroddiad cynnydd gyda’r rhieni ac roedd cyfle i rieni ddod i mewn i drafod yr adroddiad gyda’r athrawon pe ddymunent gwneud.
Mae rhieni yn derbyn adroddiad syml ar gynnydd yn dymhorol sydd yn dangos y targedau a’r camau nesaf i ddangos cynnydd.

# Presenoldeb

**Presenoldeb 2024-2025 :**
Ysgol Dyffryn Dulas 89.6%
Ysgol Pennal 93.2%

**Presenoldeb 2023-2024:**
Ysgol Dyffryn Dulas 93.9%
Ysgol Pennal 93.4%

Targed Presenoldeb Ysgol 2024-2025 : 95%+

Er bod canran absenoldebau anawdurdodedig yn isel, byddem yn parhau i fonitro pob achos yn unigol er mwyn datrys y broblem. Rydym hefyd yn rhoi sylw manwl i brydlondeb, ac yn cyd-weithio â theuluoedd er mwyn gwella a datrys unrhyw broblem.















# Cysylltiadau Cymunedol

Rydym yn ffodus iawn o gael gweithio yn agos â nifer o sefydliadau yn y gymuned leol a rydym yn rhan o nifer o weithgareddau a phartneriaethau sydd wedi ei sefydlu er sawl blwyddyn.
Rydym yn hynod ffodus o leoliad yr ysgol, ac o harddwch naturiol yr ardal leol sydd hefyd yn llawn hanes. Rydym yn gwneud y mwyaf o'r ardal, i gyfoethogi profiadau'r plant yn yr awyr agored.
Drwy'r cysylltiadau yma gyda gwahanol aelodau o'r gymuned, rydym yn meithrin plant i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus, yn ogystal â datblygu rôl gymunedol a dinesig yr ysgol.









## PC Sion

Diolch i PC Sion am ymweld a phob dosbarth yn ystod y flwyddyn gan rannu gwybodaeth am faterion pwysig iawn gyda'r disgyblion e.e. diogelwch ar y rhyngrwyd, ymddygiad cywir ac anghywir, ffrind neu elyn, a phobl sy'n helpu.

## Cerddoriaeth

Braf oedd ehangu ar brofiadau cerddorol ein disgyblion. O dan arweiniad Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd, derbyniodd y disgyblion Weithdai Cerdd diddorol iawn a roedd mwynhau amlwg yn ystod y gwersi,

- Gethin Tomos Cerdd Amdani
- Osian Huw Williams (Candelas)
- Sesiwn Samba Codi'r To

Diolch hefyd i Mrs Rhian Pughe (Ysgol Uwchradd Tywyn) am gynnal gwersi ukelele fel rhan o Pontio gyda'r Ysgol Uwchradd.



Mae gennym ni berthynas agos iawn ag Ysgol Uwchradd Tywyn ac Ysgol Bro Hyddgen, ac yn sicrhau cyfleoedd pontio i flynyddoedd 5 a 6 cyn iddynt symud i fyny i'r ysgol uwchradd. Drwy hyn, mae'n gwneud y newid yn haws iddynt adael y cynradd cyn dechrau ar y cam nesaf eu haddysg.

## Diolch Mr Ramsbottam

Ffarweliwyd gyda Mr Rambsbottam diwedd tymor yr Haf. Mae Mr Rambsbottam wedi bod yn rhan mawr o Ysgol Pennal ers sawl blwyddyn.
Mae Rambsbottam wedi bod yn cynnal gwasanaethau bob dydd Iau, a mae'r disgyblion wedi mwynhau'r gwasanaethau yn fawr. Hefyd, bu'n cynnal Gwasanaethau Diolchgarwch, Cristingl a'r Pasg,

## Ysgol Pennal

- Eglwys Pennal
- Partneriaeth Pennal 2050
- Menter y Glan
- Sioe Pennal
- Canolfan Pennal
- Cneifio Cyflym Pennal



## Ysgol Dyffryn Dulas

- Cylch Meithrin Corris
- Clwb Chwarae Corris
- Clwb pel droed y Chwarelwyr
- Sioe Corris
- Rheilffordd Corris
- Canolfan Grefftau Corris







## Cysylltiadau a'r Gymuned a Gweithgareddau

Cyd-weithio ar draws y dalgylch

Gwasanaethau Agor y Llyfr misol yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr

Gwasanaethau Diolchgarwch cyhoeddus
Gwasanaethau cristingl cyhoeddus Eglwys Pennal
Gwasnaeth Pasg cyhoeddus Eglwys Pennal

Sioe Nadolig y Ffederasiwn 'Hen Ddyn Doeth y Lleuad'

Parti Nadolig y Ffederasiwn

Ffair Nadolig Canolfan Pennal

Cyngerdd Gŵyl Ddewi o fewn yr ysgol

Dyddiau trosglwyddo i'r Uwchradd i Flwyddyn 6

Sioe Corris yn yr ysgol
Cystadlu yn Sioe Pennal

Cyflwyniadau Diogelwch y Ffordd

Rasio'r Trên blynyddol yng Nghorris.

Diwrnod mabolgampau y Ffederasiwn

Clybiau garddio dan arweiniad gwirfoddolwyr

Barbeciw Haf Ysgol Pennal

Eisteddfod Cylch a Sir: Canu, llefaru, parti canu a llefaru a Chelf a Chrefft
Pel droed yr Urdd
Cystdleuaeth Cogurdd / Poburdd
Athletau'r Urdd
Clwb yr Urdd i ddisgyblion Blwyddyn 2 i 6











Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal
**"Plant Llawen a Llwyddiannus"**

# Ymwelwyr ac Ymweliadau

Rydym yn manteisio ar bob cyfle i groesawu ymwelwyr i'r ysgolion ac yn cymryd pob cyfle i fynd a'r disgyblion allan o'r ysgol ar ymweliadau a threfnu gweithdai a fydd yn ymestyn eu dysgu ymhellach.







# Ymwelwyr, Ymweliadau a Gweithdai

Ymweld a Traeth Aberdyfi a Daws Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru wedi cynnal sesiwn ar y traeth

Ymweld ag Amgueddfa Lloyd George (Derbyn - Blwyddyn 6) profiad o hen ysgol a bwthyn ers talwm

Ymweliadau y nyrs ysgol / nyrs clyw / arbenigwyr anghenion arbennig

Gwersi nofio/gymnasteg ar y cyd yng Nghanolfan Hamdden Machynlleth yn ystod tymor y Gwanwyn.

Cyflwyniadau tymhorol gan PC Sion

Trip y Ffederasiwn i Fferm Park Hall

Cystadlu yn 'Sportshall Meirionnydd'

Pantomein 'Culhwch ac Olwen' Mega

Taith yr Iaith - Llion William - Blwyddyn 6

Pennal 2050 Fresh Water Watch a Sesiwn Gwenyn a Sesiwn Arbrofi dwr (Partneriaeth Pennal)

Archifdy Gwynedd

Twrnament Hoci Dalgylch Dysynni

Cyflwyniad RNLI
Cyflwyniad Paid Cyffwrdd Dwed

Diogelwch y Ffordd Kerbcraft
Sesiynau Beicio i Flwyddyn 5 a 6

Cwrs Preswyl Glanllyn (Blwyddyn 3-6)

Gweithdai Eginiad Cymru
Gweithdai Technocamps
Gweithdai Camau Cerdd (Derbyn - Blwyddyn 2)
Sesiwn Samba a Rhythm gyda Geth Tomos
Gweithdai Tirwedd Fran Wen (Blwyddyn 5 a 6)
Gweithdy Cyfarnsoddi gydag Osian Candelas
Sesiwn Codi'r To (Blwyddyn 5)
Gweithdy gyda Mei Mac
Gorymdaith Tirwedd yn Nhywyn
Sesiwn Selwebu gyda Meilir Emrys
Gweithdy gyda Manon Steffan Ros
Dydd Miwsig Cymru
Gweithdy Sbectrwm (Blwyddyn 1 a 5)
Jambori'r Urdd

Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd Hello Yellow
Diwrnod Shwmae Su'Mai
Diwrnod Cefnogi Ffermwyr 'Heb Amaeth Heb Faeth'
Diwrnod Rhif NSPCC
Diwrnod y Llyfr
Diwrnod Cymru'n Rocio
E-Steddfod

Cymorth Cyntaf 'Ambiwlans St John's'

Gwasanaethau Hawliau Plant
Gwasanaeth Cofio (Pennal)

Disgo Calan Gaeaf (Ysgol Dyffryn Dulas)





## Cyfraniadau i Elusennau

**Bore Coffi Macmillan** £85.50 (Ysgol Pennal) a £35 (Ysgol Dyffryn Dulas)
**Diwrnod Plant Mewn Angen** £49 (Ysgol Pennal)) a £27 (Ysgol Dyffryn Dulas)
**Plastic Free Aberdyfi** £378.81 (Ysgol Pennal)












## Dathlu 70 mlynedd Ysgol Dyffryn Dulas

Cawsom ddiwrnod llwyddiannus yn yr ysgol prynhawn dydd Sadwrn, 21ain o Fehefin yn dathlu 70 mlynedd ers agor yr ysgol. Roedd hi'n braf gweld gymaint o gyn-ddisgyblion, cyn-rieni, chyn-athrawon a Phenaethiaid a'r gymuned wedi dod atom i ddathlu'r achlysur. Bu pawb yn pori drwy hen luniau dros baned a chacen.

Cyn y diwrnod daeth Mr Martin Jones (rhiant yr ysgol) i recordio'r disgyblion yn gwneud fideo 70 ar iard yr ysgol. Roedd hyn yn dipyn o hwyl! Hefyd, bu Geth Tomos (Cerdd Amdani) yn cyfansoddi cân yr ysgol gyda'r plant hyn a'u perfformio fel ysgol gyfan. Mwynhawyd y perfformiadau yn ystod y prynhawn.

Bu Ffrindiau'r Ysgol yn brysur iawn cyn y diwrnod yn gwerthu'r Raffl Fawr gyda gwobrau arbennig. Diolch yn fawr i staff a Ffrindiau'r Ysgol am drefnu'r digwyddiad arbennig yma a chodi swm arbennig o tua £3700 tuag at brynu adnoddau gwerthfawr i'r ysgol.

## Llwyddiannau'r Urdd / E-Steddfod

Bu nifer o ddisgyblion yn llwyddiannus eto eleni yn ....
Eisteddfod Cylch yr Urdd
Eistedd Rhanbarth yr Urdd
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
Celf a Chrefft yr Urdd
Cogurdd
Poburdd
Athletau'r Urdd
Pel droed yr Urdd

Cymerwyd rhan yn E-Steddfod am yr ail flwyddyn, a bu criw o ddisgyblion yn cystadlu yn fyw ar y sgrin (canu a llefaru) yn erbyn ysgolion bach eraill yng Nghymru. Hefyd, cymerwyd rhan y cystadlaethau gwaith cartref sef gwaith Datrys Problemau Mathemategol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Gwaith Celf, Ysgrifennu a Graffeg Cyfrifiadurol.





## Ffrindiau'r Ysgol

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd amrywiol weithgareddau yn y ddwy ysgol i godi arian ar gyfer prynu adnoddau newydd

- chromebooks ac ipads
- offer gwyddoniaeth
- offer tu allan gan gynnwys beiciau a sgwteri
- rhagor o offer gwaith coed
- costau bws i Traeth Aberdyfi (Bl3-6)

Diolch i bawb am gefnogi holl ddigwyddiadau'r flwyddyn ond mae diolch arbennig yn mynd i'r Pwyllgor sydd yn llywio a threfnu'r holl weithgareddau.

**Raffl fawr Dathlu 70 - £3700**

**Noson Rasio'r Tren**

**Noson Bingo a Sglodion - £230**



**Mini Marathon - £1150**

**Cyngerdd Pasg - £639**

**Taith Gwin - £1430**

**Barbeciw - £792**

















## Trefniadaeth Dosbarth

**Ysgol Dyffryn Dulas**
Meithrin – Blwyddyn 2 Mrs Nia Rowlands
Blwyddyn 3 – 6 Mrs Eirlys Wyn Jones

**Ysgol Pennal**
Meithrin – Blwyddyn 2 Mrs Kayla Lockett
Blwyddyn 3 - 6 Mrs Miriam Jones

## Trefn y Dydd

Mae croeso i chwi ymweld â'r ysgol unrhyw amser, ond dylid yn gyntaf trefnu apwyntiad gyda'r Pennaeth er mwyn sicrhau digon o amser i drafod. Rydym oll yn cydweithio er lles pob plentyn yn yr ysgol

Disgwylir i'r plant gyrraedd yr ysgol ar ôl 8.50 y bore yn barod i fod yn y dosbarth am 9.00. Mae goruchwyliaeth o 8.50 ymlaen, a ni dderbynnir cyfrifoldeb am y disgyblion cyn hyn oni bai eu bod yn mynychu'r Clwb Brecwast. Os yr ydych yn debygol o fod yn hwyr yn codi eich plant ar ddiwedd dydd, yna gwnewch pob ymdrech i'n hysbysu ni o.g.y.dda er mwyn i ni leddfu ofnau'r plentyn

## Iaith

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

### Dosbarth 3 - 7 oed

Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy'r addysg feithrin. Cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

### Dosbarth 7 – 11 oed

Cadarnhau datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyr-ddyfodiaid.

## Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd

Mae'r Ffederasiwn wedi ymrwymo yn llawn i Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd. Mae Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd yn deillio o waith manwl y Gweithgor Dylanwadu ar Ddefnydd Cymdeithasol Plant o'r Gymraeg. Ei phrif ddiben yw sicrhau bod y Gymraeg, a defnydd cymdeithasol ein plant a phobl ifanc ohoni yn ffynnu. Defnyddir saith nôd y siarter fel offerynnau i fesur cynnydd yn y defnydd o'r iaith ynghyd â llwyddiant cynlluniau ein hysgolion.

## Gwaharddiadau

Ni fu gwaharddiadau yn ystod y flwyddyn





## Cyfleusterau toiled a'r trefniadau i'w glanhau

Mae gan yr ysgol nifer addas o doiledau ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru. Mae'r toiledau yn cael eu harchwylio yn ystod y dydd, a chânt eu glanhau yn ddyddiol gan wasanaeth glanhau'r Awdurdod.

# Datganiad ariannol Ysgol Dyffryn Dulas 2024-2025

| CYFRIFON TERFYNOL 2024/2025 | Cyllideb Terfynol 2024/2025 | Cyfanswm Gwariant 2024/2025 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **GWEITHWYR** | | | |
| Cyflogau- | | | |
| Athrawon | £195,453 | £194,652 | £801 |
| Athrawon Llanw | £14,664 | £13,434 | £1,230 |
| Staff Ategol - | | | |
| Amser Cinio | £4,816 | £3,521 | £1,295 |
| Cynorthwywyr Meithrin | £44,299 | £43,584 | £715 |
| Cymorth Gweinyddol | £0 | £0 | £0 |
| Hyfforddwr/Goruchwylio/Cyffredinol | £0 | £0 | £0 |
| Clerc Llywodraethwyr | £1,535 | £727 | £808 |
| Gofalwr (Goramser) | £700 | £0 | £700 |
| | | | |
| **ADEILADAU** | | | |
| Cynnal & Chadw - cyfrifoldebau hanesyddol | £4,000 | £2,520 | £1,480 |
| Cynnal & Chadw - gwasanaeth eiddo | £3,957 | £3,957 | £0 |
| CLG Gwasanaeth Eiddo | £1,673 | £1,673 | £0 |
| Costau Ynni - | | | |
| Trydan | £12,500 | £10,184 | £2,316 |
| Biomass | £5,000 | £4,181 | £819 |
| Nwy | £1,000 | £1,925 | -£925 |
| Dwr | £1,000 | £1,287 | -£287 |
| Contract Glanhau | £16,818 | £16,818 | £0 |
| Contract Gofalu | £0 | £0 | £0 |
| Contract Cynnal Tir | £2,270 | £2,270 | £0 |
| Defnyddiau Glanhau | £1,000 | £369 | £631 |
| Offer Ymladd Tan | £100 | £508 | -£408 |
| Trethi | £4,330 | £4,330 | £0 |
| | | | |
| **CYFLENWADAU A GWASANAETHAU** | | | |
| Lwfans y Pen | £14,206 | £17,815 | -£3,609 |
| Dodrefn | £65 | £1,152 | -£1,087 |
| Post | £75 | £0 | £75 |
| Ffôn / Ffacs / Rhyngrwyd | £500 | £680 | -£180 |
| CLG Swyddfa Ardal - craidd | £2,624 | £2,624 | £0 |
| CLG Swyddfa Ardal - dewisol | £0 | £0 | £0 |
| CLG Gwasanaeth Cyllidol | £491 | £491 | £0 |
| CLG Rheoli Banc, Taliadau, Incwm. | £159 | £159 | £0 |
| CLG Cyflogau | £381 | £381 | £0 |
| CLG Personel | £496 | £496 | £0 |
| CLG Arlwyaeth | £15,194 | £15,194 | £0 |
| CLG Llyfrgelloedd | £63 | £64 | -£1 |
| CLG Archifau | £495 | £494 | £1 |
| Pyllau Nofio a Chwaraeon | £2,000 | £447 | £1,553 |
| Gwasanaeth Cerdd | £2,484 | £395 | £2,089 |
| CLG - Cefnogaeth Technoleg | £1,155 | £1,155 | £0 |
| Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion | £4,369 | £4,369 | £0 |
| | | | |
| ARIAN WRTH GEFN | £22,294 | £0 | £22,294 |
| | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT** | £382,166 | £351,856 | £30,310 |
| | | | |
| GOSODIADAU | £0 | -£170 | £170 |
| | | | |
| RHODDION / INCWM ARALL | -£520 | -£520 | £0 |
| | | | |
| INCWM GWE | -£500 | -£500 | £0 |
| | | | |
| DEFNYDD O FALANSAU | £0 | £0 | £0 |
| | | | |
| GRANTIAU | -£33,463 | -£33,465 | £2 |
| | | | |
| LLÔG AR FALANSAU | £0 | -£2,168 | £2,168 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | £347,683 | £315,033 | £32,650 |

# Datganiad ariannol Ysgol Pennal 2024-2025

## 2207 - Pennal

| CYFRIFON TERFYNOL 2024/2025 | Cyllideb Terfynol 2024/2025 | Cyfanswm Gwariant 2024/2025 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **GWEITHWYR** | | | |
| Cyflogau- | | | |
| Athrawon | £176,246 | £175,858 | £388 |
| Athrawon Llanw | £13,570 | £16,909 | -£3,339 |
| Staff Ategol - | | | |
| Amser Cinio | £6,980 | £3,216 | £3,764 |
| Cynorthwywyr Meithrin | £18,826 | £16,558 | £2,268 |
| Cymorth Gweinyddol | £0 | £0 | £0 |
| Hyfforddwr/Goruchwylio/Cyffredinol | £0 | £0 | £0 |
| Clerc Llywodraethwyr | £1,535 | £727 | £808 |
| Gofalwr (Goramser) | £0 | £0 | £0 |
| **ADEILADAU** | | | |
| Cynnal & Chadw - cyfrifoldebau hanesyddol | £3,050 | £1,123 | £1,927 |
| Cynnal & Chadw - gwasanaeth eiddo | £1,725 | £1,725 | £0 |
| CLG Gwasanaeth Eiddo | £969 | £969 | £0 |
| Costau Ynni - | | | |
| Olew | £0 | £0 | £0 |
| Trydan | £6,700 | £5,805 | £895 |
| Nwy | £1,200 | £1,096 | £104 |
| Dwr | £700 | £865 | -£165 |
| Contract Glanhau | £9,287 | £9,287 | £0 |
| Contract Gofalu | £0 | £0 | £0 |
| Contract Cynnal Tir | £540 | £0 | £540 |
| Defnyddiau Glanhau | £500 | £330 | £170 |
| Offer Ymladd Tan | £50 | £313 | -£263 |
| Trethi | £3,710 | £3,710 | £0 |
| **CYFLENWADAU A GWASANAETHAU** | | | |
| Lwfans y Pen | £10,460 | £9,108 | £1,352 |
| Dodrefn | £65 | £2,096 | -£2,031 |
| Post | £150 | £0 | £150 |
| Ffôn / Ffacs / Rhyngrwyd | £500 | £440 | £60 |
| CLG Swyddfa Ardal - craidd | £2,550 | £2,550 | £0 |
| CLG Swyddfa Ardal - dewisol | £0 | £0 | £0 |
| CLG Gwasanaeth Cyllidol | £484 | £484 | £0 |
| CLG Rheoli Banc, Taliadau, Incwm. | £157 | £157 | £0 |
| CLG Cyflogau | £362 | £362 | £0 |
| CLG Personel | £471 | £471 | £0 |
| CLG Arlwyaeth | £13,430 | £13,430 | £0 |
| CLG Llyfrgelloedd | £60 | £64 | -£4 |
| CLG Archifau | £495 | £494 | £1 |
| Pyllau Nofio a Chwaraeon | £430 | £447 | -£17 |
| Gwasanaeth Cerdd | £2,194 | £1,739 | £455 |
| CLG - Cefnogaeth Technoleg | £867 | £867 | £0 |
| Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion | £3,539 | £3,539 | £0 |
| ARIAN WRTH GEFN | £17,145 | £0 | £17,145 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | £298,947 | £274,739 | £24,208 |
| GOSODIADAU | £0 | £0 | £0 |
| RHODDION / INCWM ARALL | -£460 | -£460 | £0 |
| INCWM GWE | £0 | £0 | £0 |
| DEFNYDD O FALANSAU | £0 | £0 | £0 |
| GRANTIAU | -£31,382 | -£31,383 | £1 |
| LLÔG AR FALANSAU | £0 | -£1,431 | £1,431 |
| **CYFANSWM** | £267,105 | £241,465 | £25,640 |

# Dyddiadau Tymor 2025-2026

| Gwyliau ysgol | Yn cychwyn | Yn gorffen |
|---|---|---|
| Hanner tymor Hydref | 27 Hydref 2025 | 31 Hydref 2025 |
| Gwyliau Nadolig | 22 Rhagfyr 2025 | 2 Ionawr 2026 |
| Hanner Tymor Gwanwyn | 16 Chwefror 2026 | 20 Chwefror 2026 |
| Gwyliau Pasg | 30 Mawrth 2026 | 10 Ebrill 2026 |
| Calan Mai (gŵyl banc) | 4 Mai 2026 | |
| Hanner tymor Haf | 25 Mai 2026 | 29 Mai 2026 |
| Gwyliau Haf | 21 Gorffennaf 2026 | 31 Awst 2026 |

## Dyddiadau Diwrnod HMS 2025-2026

01/09/25
05/05/26

24/10/25
22/06/26

05/01/26
20/07/26